FACULTY OF PUBLIC HEALTH

Protecting and improving the health of the public through the organised efforts of our members

# Eich Canllaw Pleidleisio ar Iechyd: Etholiadau Cymru 2026

## Pam mae hyn yn bwysig i chi

Bydd yr etholiad hwn yn dylanwadu ar eich iechyd chi ac ar iechyd eich teulu am flynyddoedd i ddod. Fel gweithwyr iechyd cyhoeddus proffesiynol, rydym am eich helpu i ddewis gwleidyddion a fydd yn wirioneddol yn gwella iechyd a llesiant yng Nghymru.

## Deall iechyd: mwy nag ysbytai a meddygon

Mae angen sylfeini iechyd pwysig ar bob un ohonom i gadw'n iach: diogelwch a sicrwydd, cartref fforddiadwy da, digon o arian i fyw arno, bwyd da, teulu a ffrindiau, addysg, trafnidiaeth, gofal iechyd pan fydd ei angen arnom, mannau gwyrdd, a chymunedau cryf.

Pan nad yw'r hanfodion hyn ar gael gan bobl, maen nhw'n mynd yn sâl yn amlach ac yn marw'n iau. **Mae hyn yn annheg a gellir ei atal.**

**Yr heriau iechyd yng Nghymru ar hyn o bryd**

- **1 o bob 4 plentyn** yn tyfu i fyny mewn tlodi
- **7.2 miliwn o ddiwrnodau** yn cael eu colli oherwydd salwch bob blwyddyn
- **18% o gartrefi** yn peri risg i iechyd
- **50,000 yn fwy o achosion diabetes** yn ddisgwyliedig mewn 10 mlynedd
- **3,845 o farwolaethau bob blwyddyn ar gyfartaledd oherwydd ysmygu** (tair gwaith yn uwch yn y cymunedau tlotaf)
- **1 plentyn o bob 4 dros bwysau** erbyn diwedd y flwyddyn ysgol gyntaf
- **1 o bob 4 plentyn ym mlwyddyn 1 yn yr ysgol yn dioddef o bydredd dannedd** (dros 1 o bob 3 yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig)

**Gallwn wneud yn well. Gall Llywodraeth nesaf Cymru wneud gwahaniaeth go iawn.**

4 St Andrews Place, London NW1 4LB
E-bost: policy@fph.org.uk Ffôn: + 44 (0) 203 523 0800 Gwefan: www.fph.org.uk
Rhif Cofrestru'r Elusen: 263894

## Sut i ddefnyddio'r canllaw hwn

1. Darllen maniffestos pleidiau
2. Defnyddio'r rhestr wirio isod - ticio wrth fynd ymlaen:
    - **3 – Ymrwymiad cryf** (Polisi clir gyda chyllid)
    - **2 – Ymrwymiad gwan** (Wedi'i grybwyll ond yn amwys)
    - **1 – Heb ei grybwyll** (Ddim yn y maniffesto)
3. Cymharu canlyniadau – pa blaid sydd â'r ymrwymiadau cryfaf?

## Y 10 Blaenoriaeth Uchaf ar gyfer Iechyd

Dyma'r polisïau hyn sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf. Canolbwyntiwch yma yn gyntaf.

| Polisi | Beth mae hyn yn ei olygu | Plaid 1 | Plaid 2 | Plaid 3 | Plaid 4 |
|---|---|---|---|---|---|
| **1. Lleihau tlodi plant** | Mwy o blant yn cael digon i fwyta, cartrefi cynnes, cyfleoedd | | | | |
| **2. Cyflog byw gwirioneddol** | Cyflogau sy'n talu costau byw | | | | |
| **3. Mwy o dai fforddiadwy** | Adeiladu mwy o gartrefi, defnyddio mwy o eiddo, yn enwedig tai cymdeithasol | | | | |
| **4. Prydau ysgol iach am ddim** | Parhau i ddarparu prydau a brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd, a phrydau maethlon i bob plentyn | | | | |
| **5. Symud cyllideb y GIG i ofal ataliol** | Mwy o wario ar gadw pobl yn iach | | | | |
| **6. Gwell trafnidiaeth gyhoeddus gynaliadwy** | Llwybrau haws, rhatach a chyfleus i'r rhai sydd fwyaf eu hangen, am ddim i bobl ifanc | | | | |
| **7. Gwneud bwyd iach yn fforddiadwy** | Dewisiadau iach yn hawdd eu prynu, rhoi'r gorau i dargedu plant, rhoi'r gorau'n raddol i hysbysebu bwyd sothach | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **8. Stopio tybaco a lleihau niwed alcohol** | Polisïau a rheoliadau i helpu'r rhai sy'n ysmygu/fepio/yfed yn niweidiol i roi'r gorau iddi ac atal plant rhag dechrau o gwbl | | | | |
| **9. Mwy o feddygon teulu, deintyddion y GIG ac iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol** | Gofal yn nes at y cartref: parhad gofal ataliol, cydlynol | | | | |
| **10. Mannau gwyrdd a glas i bawb** | Llawer o barciau, coed, meysydd chwarae, glan y môr neu ddyfrffyrdd. Yn agos at eich cartref | | | | |

## Rhestr Wirio – Polisi Llawn

### Plant a theuluoedd

Mae blynyddoedd cynnar plant yn siapio eu bywydau cyfan. Drwy gael polisïau da yma gellir atal problemau am ddegawdau.

| Polisi | Beth mae hyn yn ei olygu | Plaid 1 | Plaid 2 | Plaid 3 | Plaid 4 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Lleihau tlodi plant** | Rhoi digon i bob teulu i fod yn iach | | | | |
| **Cymorth i rieni** | Cymorth gyda gofal plant, gwaith hyblyg | | | | |
| **Ymwelwyr iechyd i deuluoedd** | Gwiriadau rheolaidd, cymorth ychwanegol i'r rhai sydd ei angen fwyaf | | | | |
| **Lleihau trawma yn ystod plentyndod** | Atal camdriniaeth, cymorth i atal argyfyngau, cefnogi teuluoedd mewn argyfwng, cymorth lles meddyliol | | | | |
| **Cefnogi plant ag anghenion ychwanegol** | Gwell adnoddau ar gyfer ADY (anghenion dysgu ychwanegol) ac anableddau) | | | | |
| **Prydau ysgol iach am ddim** | Parhau i ddarparu prydau a brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd, a phrydau maethlon i bob plentyn | | | | |

## Gwaith ac incwm

Mae incwm digonol a rôl ystyrlon yn eich helpu i gynnal eich iechyd. A chefnogwch eich teulu a'ch cymuned.

| Polisi | Beth mae hyn yn ei olygu | Plaid 1 | Plaid 2 | Plaid 3 | Plaid 4 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflog byw gwirioneddol** | Mae gan bawb ddigon i fod yn iach | | | | |
| **Helpu pobl i aros mewn gwaith/dychwelyd i'r gwaith** | Cefnogaeth ar gyfer salwch tymor hir | | | | |
| **Lleihau costau byw** | Biliau is, hanfodion fforddiadwy | | | | |
| **Cydraddoldeb yn y gweithle** | Cau bylchau cyflog (rhywedd, ethnigrwydd, anabledd) a galluogi amrywiaeth yn y gweithlu | | | | |
| **Gwerthfawrogi rolau di-dâl** | Cefnogi gofalwyr a gwirfoddolwyr | | | | |

## Tai a thrafnidiaeth

Mae tai a thrafnidiaeth o ansawdd da yn diogelu iechyd corfforol a meddyliol yn y tymor hir

| Polisi | Beth mae hyn yn ei olygu | Plaid 1 | Plaid 2 | Plaid 3 | Plaid 4 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mwy o dai fforddiadwy** | Adeiladu mwy o gartrefi, defnyddio mwy o eiddo, yn enwedig tai cymdeithasol | | | | |
| **Gwell cartrefi rhentu preifat** | Cartrefi rhentu mwy diogel a chynhesach gyda thenantiaethau diogel | | | | |
| **Llwybrau cerdded a beicio diogel** | Llwybrau troed a lonydd beiciau wedi'u cynnal a'u cadw'n dda. Gorfodi dim parcio ar y palmant | | | | |
| **Gwell trafnidiaeth gyhoeddus gynaliadwy** | Llwybrau haws, rhatach a chyfleus i'r rhai sydd fwyaf eu hangen, am ddim i bobl ifanc | | | | |
| **Cynnal y terfyn cyflymder o 20mya** | Cadw'r polisi cyfredol ar waith i leihau marwolaethau ac anafiadau, a lleihau costau yswiriant cerbyd | | | | |

4 St Andrews Place, London NW1 4LB
E-bost: policy@fph.org.uk Ffôn: + 44 (0) 203 523 0800 Gwefan: www.fph.org.uk
Rhif Cofrestru'r Elusen: 263894

## Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae’r GIG yn gwario’r rhan fwyaf o arian yn trin pobl ar ôl iddynt fynd yn sâl. Mae angen inni wario mwy ar atal salwch.

| Polisi | Beth mae hyn yn ei olygu | Plaid 1 | Plaid 2 | Plaid 3 | Plaid 4 |
|---|---|---|---|---|---|
| **GIG am ddim i bawb** | Cadw'r GIG yn wasanaeth am ddim a ariennir yn gyhoeddus | | | | |
| **Gofal iechyd a chymdeithasol hygyrch ac o ansawdd da i bawb** | Gwneud mynediad yn deg i bawb, a rhoi’r arian lle mae’r anghenion | | | | |
| **Mwy o feddygon teulu, deintyddion y GIG ac iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol** | Gofal yn nes at y cartref: gofal ataliol, cydlynol a pharhad gofal drwy ragor o gyllid, staffio ac adeiladau | | | | |
| **Symud cyllideb y GIG i ofal ataliol** | Mwy o wario ar gadw pobl yn iach | | | | |
| **Rhoi'r gorau i dybaco** | Polisïau a rheoliadau i helpu’r rhai sy’n ysmygu/fepio i roi’r gorau iddi ac atal plant rhag dechrau o gwbl | | | | |
| **Lleihau niwed alcohol** | Polisïau a rheoliadau i helpu pobl i leihau’r defnydd o alcohol a niwed i eraill | | | | |
| **Gwneud bwyd iach yn fforddiadwy** | Dewisiadau iach yn hawdd i’w prynu, rhoi’r gorau i dargedu plant, rhoi’r gorau i hysbysebu bwyd sothach yn raddol | | | | |

## Yr hinsawdd a’r amgylchedd

Mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar iechyd drwy lifogydd, prinder bwyd, ac ansawdd aer gwael.

| Polisi | Beth mae hyn yn ei olygu | Plaid 1 | Plaid 2 | Plaid 3 | Plaid 4 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Diogelu rhag niwed yn sgil yr hinsawdd** | Amddiffynfeydd llifogydd, cynlluniau tywydd poeth | | | | |
| **Diogeledd bwyd** | Pawb yn gallu cael gafael ar fwyd maethlon | | | | |
| **Datgarboneiddio** | Symud tuag at drafnidiaeth ac ynni carbon isel | | | | |
| **Mannau gwyrdd a glas i bawb** | Llawer o barciau, coed, meysydd chwarae, glan y môr. Yn agos at eich cartref | | | | |

## Gwneud eich penderfyniad

Edrychwch ar eich rhestr wirio:

- Pa blaid sydd â'r **ymrwymiadau** cryfaf?
- Pa feysydd sydd bwysicaf i chi a'ch teulu?
- A yw'r addewidion yn cynnwys cyllid a chynlluniau?

**Cofiwch:** Mae polisïau iechyd da yn arbed arian yn y tymor hir drwy gadw pobl allan o'r ysbyty.

## Cwestiynau i'w gofyn i ymgeiswyr

1. "Sut byddwch chi'n lleihau tlodi plant yng Nghymru?"
2. "Beth yw eich cynllun i symud gwariant y GIG tuag at ataliaeth?"
3. "Sut byddwch chi'n gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu fforddio cartref iach?"
4. "O ble daw'r arian?"

## Rhagor o wybodaeth

- Sut mae Etholiadau'r Senedd yn gweithio Etholiadau Cymru 2026: Senedd Cymru | Sefydliad y Llywodraeth
- **Maniffestos pleidiau:** Mae'r rhain ar gael ar wefan pob plaid

- **Tystiolaeth:**
  - Arbenigedd proffesiynol aelodau Cyfadran Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru
  - Iechyd Cyhoeddus Cymru Gweithio gyda'n gilydd ar gyfer Cymru Iachach: Pum blaenoriaeth polisi
- Ysgrifennwyd y cyflwyniad gyda chymorth AI (Copilot) ond ni ddefnyddiwyd AI i helpu i lunio cynnwys y polisïau ac mae'n deillio'n llwyr o gyfraniadau aelodau'r Gyfadran

---

4 St Andrews Place, London NW1 4LB
E-bost: policy@fph.org.uk Ffôn: + 44 (0) 203 523 0800 Gwefan: www.fph.org.uk
Rhif Cofrestru'r Elusen: 263894

# Mae eich pleidlais yn bwysig.
# Defnyddiwch eich pleidlais i ddewis iechyd gwell i Gymru.

*Mae Cyfadran Iechyd y Cyhoedd yn sefydliad aelodaeth o weithwyr proffesiynol iechyd y cyhoedd ac yn elusen gofrestredig. Barn y Gyfadran yng Nghymru a roddir yma. Rydym yn annibynnol ar unrhyw Lywodraeth neu blaid wleidyddol.*

4 St Andrews Place, London NW1 4LB
E-bost: policy@fph.org.uk Ffôn: + 44 (0) 203 523 0800 Gwefan: www.fph.org.uk
Rhif Cofrestru'r Elusen: 263894